



Gair i Gall



Ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned

Pobl



Bydd y canllawiau hyn o gymorth i: fudiadau sydd eisiau sicrhau eu bod yn llunio'r cynnig gorau posib sy'n cyfateb i anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Yr hyn rydych chi am ei gyflawni:

Rhestr o wahanol weithgareddau ymgysylltu wedi'u profi, gan greu adborth pwysig i'ch mudiad a gwella'r ymdeimlad o 'berchnogaeth' gan randdeiliaid allweddol gan gynnwys buddiolwyr eich mudiad. ✓

Beth fydd ei angen arnoch chi:

Cyllideb ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu ✓

Amser i gynllunio a chyflawni ystod o weithgareddau ymgysylltu ✓

Ymdeimlad pendant o ddiben y gwaith ymgysylltu ✓

Sut byddwch chi'n ei wneud:

- Ystyriwch unrhyw ymgynghori yn rhan o **strategaeth ymgysylltu cymunedol** barhaus. Mae ymgysylltu cymunedol yn gweithio orau pan fydd yn broses gronnus barhaus sy'n **helpu i ddatblygu perthynas waith gadarnhaol ac ymddiriedaeth dros amser**. Mae'n strategaeth hirdymor, nid yn ateb cyflym.
- Dylid cynllunio digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu unigol gyda hynny mewn golwg, gan anelu at sicrhau eu bod yn cyfrannu tuag at amcanion cyffredinol y broses ymgysylltu. Meddyliwch am lunio **cynllun ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned** gyda manylion y cyfleoedd i gymryd rhan a'r terfynau amser.

- Dechreuwch trwy ffurfio amcanion eglur a diamwys ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned. **Beth yw'r hyd a'r lled a'r diben?**
- **Bydd cytuno ar ddiben eglur yn helpu i osod amcanion ymgysylltu a'r canlyniadau a ragwelir, a bydd yn help wrth benderfynu ar hyd a lled yr ymgysylltu.** Gall hyn amrywio o ymgynghori i gymryd rhan i wneud penderfyniadau hyd at gael grwpiau cymunedol a gwirfoddol yn darparu prosiectau a gwasanaethau.
- **Ystyriwch dulliau ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned sy'n addas a chynhwysol.** Gallai'r dulliau hynny gynnwys: ymgyrchoedd yn y cyfryngau lleol; taflenni; poster; arddangosfeydd / stondinau mewn digwyddiadau cymunedol; arolygon trwy'r post neu o ddrws i ddrws, neu ar-lein; diweddariadau trwy gylchlythyrau neu e-bost; gweithgareddau adrodd stori; gweithdai; grwpiau ffocws; cyfarfodydd cyhoeddus; llunio gweledigaeth gymunedol / mapiau a modelau.
- Mae angen cyhoeddusrwydd effeithiol er mwyn sicrhau bod pobl o bob grŵp, gan gynnwys y rhai a ystyrir yn **'anodd i'w cyrraedd', sydd mewn gwirionedd angen mwy o gefnogaeth a dulliau dychmygus o ymgysylltu,** yn cael y wybodaeth sydd ei hangen i gymryd rhan.
- **Wrth ystyried sut i oresgyn rhwystrau rhag ymgysylltu, meddyliwch pa dechnegau a dulliau fyddwch chi'n eu defnyddio,** ble mae'r lleoliad a pha mor hygyrch yw, y math o ddigwyddiadau ymgysylltu, ffurf a chynnwys unrhyw ddeunyddiau cyfathrebu a chyhoeddusrwydd, yn ogystal â'r angen i gynnal gweithgareddau allgymorth er mwyn sicrhau bod y cyfle gan bobl i gymryd rhan.
- Fyddwch chi'n monitro a gwerthuso llwyddiant pob techneg a ddefnyddir, er mwyn helpu gyda chynllunio gweithgareddau ymgysylltu yn y dyfodol? Gall hyn fod o gymorth o ran penderfynu pa weithgareddau sy'n rhoi canlyniadau da a **ble i ganolbwyntio'ch ymdrechion yn y dyfodol.**
- Ystyriwch sut gallwch weld **gwerth** y broses yn ogystal â chynnyrch yr ymgysylltu – **ewch ati i greu gwir ymdeimlad o gymryd rhan, gan roi cyfleoedd go iawn i bobl gyfrannu eu safbwyntiau, megis gosod 'lein ddillad' lle gall pobl osod eu sylwadau gyda phediau, annog pobl newydd i gymryd rhan trwy greu awyrgylch hwyliog (gyda phaned a chacen, o bosib) mewn lleoliad sy'n hawdd ei gyrraedd, ysbrydoli ffyrdd newydd o feddwl trwy gynnig gweithgareddau ymarferol, megis cyfrannu at 'lyfr sgrap syniadau'.** Ceisiwch feddwl am ffyrdd o wneud y sesiynau mor annhebyg i ddigwyddiadau ymgysylltu rhanddeiliaid confensiynol â phosib.
- Gall **mapio cymunedol** fod yn arf defnyddiol e.e. Gellir defnyddio mapiau a ffotograffau o ardal neu o leoliad penodol i ddangos sut mae pobl yn gweld eu hardal, beth maen nhw'n ei hoffi neu beidio, a pha welliannau hoffen nhw eu gweld. Gellir ffurfio syniadau mewn trafodaethau mewn grwpiau bach a'u cofnodi ar bapurau *post-it* neu gardiau sylwadau. Gall hwyluswyr helpu pobl i ystyried materion, ffurfio consensws, neu nodi ble mae gwrthdaro. Mae modd mapio nifer o agweddau gwahanol **gan gynnwys defnydd tir, asedau cymunedol, cyfleusterau, ac opsiynau cludiant er mwyn creu ciplun o ardal.**

Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn ctauk.org/cciw-cymraeg.